



5-8 munud

Amcan a Ffocws Cerddorol:

Curiad; Chwarae fel ensemble; canu.

Offerynnau?

Offerynnau taro di-draw neu ddefnyddio'r corff fel offeryn taro

Hygyrchedd:

Mae'n addas i blant sydd â namau echddygol neu wybyddol, neu nam ar y golwg neu'r clyw, gyda mân addasiadau.

1. Gweithgaredd i Gynhesu

Deg eiliad i...

Mae'r gêm yma'n cael ei defnyddio i gael pawb i weithio gyda'i gilydd fel un tîm. Nod y gêm ydy i'r dosbarth drefnu eu hunain mewn rhes ar sail meini prawf a fydd yn cael eu gosod gan yr athro. Er enghraifft, gallai'r athro weiddi, 'deg eiliad i...':

- Fynd i res o'r talaf i'r byrraf.
- Fynd i res yn nhrefn yr wyddor gan ddefnyddio eich enw cyntaf

Gofynnwch i'r plant feddwl am feini prawf newydd, er enghraifft maint esgid, maint eu hoff anifail ac ati.

Er mwyn gwneud y gêm yn anoddach, ar ôl dechrau cyfri i lawr o ddeg, dydy'r plant ddim yn cael siarad â'i gilydd. Gadewch iddyn nhw drafod yr her am funud, ac wedyn dechrau cyfri am i lawr.

2. Cân: *Be in the Band*

Gwrandewch ar y gân *Be in the Band*. Gallwch ddefnyddio adnodd rhyngweithiol Bring the Noise: Play It! i wrando ar y gân gyda'r lleisiau neu hebbyd nhw.

Dysgwch gytgan y gân i'ch dosbarth:

**We're gonna be in the band
We're gonna be in the band
We're gonna be in the band
So clap your hands.**



5-8 munud



Sylwch sut mae'r gair 'band' yn cael ei ganu'n wahanol bob tro.



20 munud



Gallwch wneud y gweithgaredd hwn drwy ddefnyddio offerynnau neu ddefnyddio'r corff fel offeryn taro, neu gyfuniad o'r rhain. Beth am roi cynnig ar ddefnyddio'r offerynnau roedd y dosbarth wedi'u creu?



3. Prif Weithgaredd

Creu Band

Trafodwch fanciau fel dosbarth:

- Pa fanciau mae'r plant yn gwybod amdany'n nhw?
- Faint o bobl sydd yn y bandiau yma?
- Oes cymysgedd o fechgyn a merched yn y bandiau?
- Ydyn nhw'n chwarae unrhyw offerynnau?
- Sut maen nhw'n edrych?
- Sut byddech chi'n disgrifio eu cerddoriaeth?

Nawr rhannwch y dosbarth yn grwpiau 'band' (tua 4-6 plentyn ym mhob un) a gofyn iddyn nhw feddwl am enw unigryw i'w band!

Estyniad: Gofynnwch i'r bandiau greu logo ar gyfer eu band!

Os oes gennych chi offerynnau, rhannwch nhw rhwng eich grwpiau band. Efallai byddwch chi eisiau cael cymysgedd o offerynnau ym mhob band, er enghraifft: 1 drwm, 1 bloc pren, 1 tambwrîn, 1 offeryn ysgwyd, 1 güiro. Os nad oes gennych chi offerynnau, mae hi'n dal yn bosib gwneud y gweithgaredd nesaf drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro.

Ewch dros y gytgan eto. Nawr gyda'ch gilydd fel dosbarth, clapiwch i guriad y gytgan, heb ganu. Mae adnodd rhyngweithiol *Bring the Noise: Play It!* yn cynnwys modd sy'n dangos curiad caneuon er mwyn helpu gyda'r gweithgaredd hwn.

Rhowch gynnig ar ddefnyddio seiniau eraill drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro (curo cluniau, taro ysgwyddau, stompio ac ati) er mwyn i'r plant deimlo curiad y gerddoriaeth yn llythrennol.





Nawr trowch hon yn gêm lle byddwch chi'n newid y seiniau rydych chi'n eu gwneud o bryd i'w gilydd yn ystod y gytgan, a gweld a yw'r plant yn gallu newid gyda chi.

Bydd hyn yn eu herio i ganolbwyntio â chadw'r curiad ar yr un pryd. Os bydd y gêm yn llwyddo, gofynnwch i blentyn arwain gweddill y dosbarth gyda seiniau newydd.

Pan fyddwch chi'n teimlo bod y plant yn gyfarwydd â'r curiad, newidiwch i ddefnyddio offerynnau taro di-draw.

Nawr dysgwch y rhythm hwn i'ch dosbarth; mae modd ei glywed fel clapio yng nghytgan y gân.

Ewch ati i ymarfer chwarae'r rhythm yma gydag adran cytgan y gân.

Rhannwch eich dosbarth yn ddau grŵp gydag un hanner yn gyfrifol am ganu'r gytgan a'r hanner arall yn chwarae'r rhythm uchod ar offerynnau/defnyddio'r corff fel offeryn taro. Newidiwch y tasgau er mwyn i bob grŵp gael tro yn canu ac yn chwarae.

Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn ôl i'w grwpiau band a rhoi amser iddyn nhw ymarfer chwarae'r rhythm yma unwaith ar ôl llinell gyntaf y gytgan a dwywaith ar ôl y llinell olaf.



4. Datrys problemau

Wrth ddysgu'r rhythm yn yr adran 'Building a Band', cofiwch ymarfer dweud y rhythm yn gyntaf, wedyn ewch ymlaen i'w chwarae gan ddefnyddio amrywiaeth o seiniau drwy ddefnyddio'r corff fel offeryn taro, ac yn olaf ewch ymlaen i ddefnyddio offerynnau.

Pan fyddwch chi'n ymarfer y rhythm yma, cofiwch gadw curiad cyson a gwneud yn siŵr bod y tempo yn aros yr un fath.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

Addysg Bersonol,
Gymdeithasol ac Iechyd



Allweddeiriau

Defnyddio'r corff fel offeryn taro: seiniau sy'n cael eu gwneud drwy ddefnyddio eich corff.

Curiad: pwls cyson, fel cloc yn tician.

Rhythm: patrwm o seiniau hir a byr.

Tempo: cyflymder y gerddoriaeth.

Offerynnau taro di-draw: er enghraifft drwm neu floc pren.